OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2136 (Cy.192)

# TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD, CYMRU

## Gorchymyn Rheilffordd Llangollen a Chorwen 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Awst 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *27 Awst 2010* |

Gwnaed cais i Weinidogion Cymru yn unol â Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006(**1**) am Orchymyn o dan adrannau 1 a 5 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(**2**) ("Deddf 1992").

Cafodd gwrthwynebiadau i'r cais hwnnw eu tynnu'n ôl.

Mae Gweinidogion Cymru, o fod wedi ystyried adroddiad y person a ofynnwyd ganddynt i ddarparu arfarniad o'r cais, wedi penderfynu gwneud Gorchymyn yn rhoi eu heffaith i'r cynigion sy'n ffurfio'r cais gydag addasiadau nad ydynt ym marn Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw newid sylweddol i'r cynigion.

Cyhoeddwyd hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru yn y London Gazette ar 24 Awst 2010.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1 a 5 o Ddeddf 1992, a pharagraffau 1, 2, 5, 7, 8, 11 i 13 a 15 i 17 o Atodlen 1 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:–

(**1**) O.S. 2006/1466.
(**2**) 1992 p. 42. Fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/1541, O.S. 1998/2226, O.S. 2000/3199 ac O.S. 2006/958.